**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 29 Gorffennaf 2014**

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni chodwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chafwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2014 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*<br><br>*(a) yn awdurdodi cychwyn astudiaethau dichonoldeb mewn perthynas â'r prosiectau a nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad, bydd eu cwblhau yn destun penderfyniadau'r gyllideb yn y dyfodol;*<br><br>*(b) yn nodi y bydd yr awdurdod yn parhau i gynnal y ddarpariaeth yn Ysgol Borthyn;*<br><br>*(c) yn nodi'r gofyniad i ymgynghori ar ddyfodol Ysgol Rhewl yn dilyn yr astudiaeth dichonoldeb ar safle Glasdir, ac*<br><br>*(d) yn cymeradwyo symud ymlaen i ymgynghori ffurfiol ar gyfer y newid arfaethedig i ysgol sydd â dynodiad crefyddol ar gyfer Ysgol Esgob Morgan trwy ei chau fel ysgol gymunedol a'i hail-agor fel ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru o 1 Medi 2015.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 29 Gorffennaf 2014**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **6** | STRATEGAETH LEOL RHEOLI RISG LLIFOGYDD A'R WYBODAETH DDIWEDDARAF AM REOLI RISG LLIFOGYDD YN SIR DDINBYCH | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet -*<br><br>*(a) yn cymeradwyo cyflwyno'r Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd i Lywodraeth Cymru am adolygiad Gweinidogol, ac*<br><br>*(b) yn nodi'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd yn yr adroddiad.* |
| **7** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2014/15 a'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb a gytunwyd.* |
| **8** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD** bod Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet yn cael ei nodi.* |
| **9** | YSGOL NEWYDD Y RHYL - DYFARNU CONTRACTAU | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo dyfarnu contractau sy'n gysylltiedig ag Ysgol Newydd y Rhyl i uchafswm gwerth fel y manylir yn yr adroddiad yn amodol ar gadarnhad o gyllid gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'u cyfran o'r cyllid ar gyfer y prosiect.* |
| **10** | CAM 3 AMDDIFFYN YR ARFORDIR GORLLEWIN Y RHYL - DYFARNU CONTRACT | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn awdurdodi -*<br><br>*(a) Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol i ddilyn proses negodi contract a gynhelir yn unol â Rheol Gweithdrefn Contract 24;*<br><br>*(b) Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus i lobïo Llywodraeth Cymru am gymorth ariannol ychwanegol ar gyfer y cynllun i dalu am y diffyg yn y cyllid, ac*<br><br>*(c) Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151, i ddyfarnu'r contract i'r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd yn amodol ar dderbyn* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *cadarnhad ysgrifenedig o'r cyllid ychwanegol digonol gan Lywodraeth Cymru i dalu cost wedi'i ail-drafod y cynllun i foddhad Swyddog Adran 151.* |
| **11** | CYMERADWYO TENDR AR GYFER ADEILADU MAN GWYRDD GORLLEWIN Y RHYL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*<br><br>*(a)* *yn awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd i graffu ar y fanyleb er mwyn lleihau cost tendr, ac*<br><br>*(b)* *yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cadarnhau yn ysgrifenedig y bydd yn darparu 100% o bris y contract, bod yr Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd yn cael ei awdurdodi i ddyfarnu'r contract i'r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd.* |